
GLYNN VIVIAN DYSGU-LEARNING

# George Cooper Mason a’r Enfys Ffantasïol



George Cooper Mason: *Di-deitl (Golygfa Ffantasi)* Olew ar fwrdd.

**Her Gelf #GlynnVivianGartref**

O gwmpas y byd mae'r enfys yn datblygu'n gyflym fel symbol o obaith a chreadigrwydd. Gan ddefnyddio paentiad George Cooper Mason i'ch ysbrydoli, hoffem i chi greu eich enfysau hudolus eich hunain i'w harddangos yn eich ffenestri.

**Awgrymiadau defnyddiol:**

- Gallwch ddefnyddio unrhyw ddefnydd i greu eich enfys. Gallwch greu enfys drwy baentio, cerflunio, gwneud brodwaith, gwau, gludwaith, mosäig ac yn y blaen...
- Cofiwch y gall eich gwaith celf fod yn unrhyw beth yr hoffech, ar yr amod bod elfen enfys gref iddo.
- Ystyriwch sut bydd eich enfys yn ymddangos o'r tu allan. Sut bydd yn denu llygaid eraill? Beth am greu un anferth? A fydd yr enfys yn ymestyn o un ffenestr i'r llall? Neu efallai yr hoffech greu patrwm gan ddefnyddio sawl enfys?

Ar ôl i chi orffen, beth am rannu llun o'ch gwaith celf yn eich ffenest gan ddefnyddio @glynnvivianlearning a #GlynnVivianGartref #AmgueddfeyddGartref er mwyn dweud wrthym amdano.

Cyngor Celfyddydau Cymru Arts Council of Wales

Noddir gan Lywodraeth Cymru Sponsored by Welsh Government

FRIENDS OF THE GLYNN VIVIAN

Cyngor Abertawe Swansea Council